

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed o Ebrill, 2023.

- 1 Presennol:** John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Michael Jones, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Sarah Jones, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Williams (Prenteg), Megan Lloyd Williams (Golan), Iddon Edwards, Jess Williams (Penmorfa), Stephen Churchman (Cyngorwr Sir Cyngor Gwynedd)

Croesawyd Jess Williams a Raymond Jones i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor Cymuned.

Cydymdeimlwyd gyda Richard Parry a'i deulu yn dilyn ei brofedigaeth o golli Mam yng Nghyfraith, Mrs Dora Jones.

- 2 Ymddiheuriadau:** Edward Evans (Bryncir), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen), John Till (Golan), June Jones (Cyngorwr Sir Cyngor Gwynedd).

- 3 Ddim yn bresennol:** Neb

- 4 Datgan buddiant:** Neb

- 5 Cywirdeb y cyn-gofnodion:** Huw Pritchard yn cynnig a Richard Williams yn eilio.

- 6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion:**

Etholiad 2022: Mel ab Owain o Unllais Cymru heb dderbyn ymateb i'w lythyr gan Reolwr Etholiadau ac wedi gofod ail ysgrifennu atynt ac wedi anfon copi at y Prif Weithredwr y tro hwn. Awgrymwyd ein bod yn ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol.

Bwrdd Gwybodaeth Eglwys Ynys Cynhaearn: Dangoswyd dyluniad a grëwyd gan Ffion Gwyn yr Arlunydd. Nodwyd bod angen ychwanegu hanes Alltud Eifion a John Ignatius Williams i'r bwrdd gwybodaeth. Clerc i adrodd yn ôl i Ffion.

Wedi derbyn amcan bris gan Saer lleol i greu'r ffrâm ar gyfer y bwrdd gwybodaeth - £457.50 + TAW.

Penderfynwyd mai'r lleoliad gorau ar gyfer y bwrdd gwybodaeth fyddai ger y fainc yng nghanol y pentref.

Dyweddodd y Clerc bod yr Eglwys yn gymwys i wneud cais am arwydd twristiaeth. Clerc i barhau gyda'r cais.

Cyfarfodydd Aml leoliad: Manylion cyswllt ar gyfer yr holl neuaddau/canolfannau o fewn Ward Dolbenmaen wedi'i anfon ymlaen at Siwan yng Nghyngor Gwynedd.

Dafarn Faig: Bu i'r Cadeirydd gwrdd â Merfyn Morris o'r Adran Gefnffyrdd ar safle ar y 28ain o Fawrth i drafod gwaith pellach oedd ei angen ar y gyffordd. Cytunwyd i dorri'r tyfiant ymhellach i wella'r gweledd. Y gobaith yw cwblhau'r gwaith mor fuan â phosib.

Diffibriliwr Prenteg: Diffib wedi ei osod yn y Ganolfan ym Mhrenteg. Adroddwyd y clerc bod yn rhaid i'r Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb ohono ac y bydd angen ei ychwanegu at ein rhestr o asedau. Mae yna drefniant i gynnal hyfforddiant yn fuan ar gyfer trigolion yr ardal. Clerc i wneud ymholiadau i gael arwydd i ddangos ble mae'r diffib.

Baner Ambiwllans Awyr: Adroddwyd fod y faner wedi cyrraedd. R.P i drefnu ei osod ym Mynedfa'r Mart ym Mryncir.

Ysgol Hafod Lon: Cadarnhawyd bod cyfraniad o £200.00 wedi'i wneud o gronfa'r Cadeirydd i fynd tuag at brynu beic pwrpasol i'r Ysgol.

- 7 Mynwentydd:** Adroddwyd fod pridd ar un bedd ar yr un lefel a'r tir. Angen cadw golwg arno.

Dyweddodd H.P fod Mynwent Ynys Cynhaearn yn daclus iawn.

- 8 Llwybrau Cyhoeddus:** Soniwyd am lwybr 110 eto ble mae coeden wedi disgyn ar draws y llwybr a llechen ger y giât mochyn wedi torri sydd yn golygu fod defaid yn gallu dianc drwyddo.

Soniwyd eto am yr arwydd sydd wedi diflannu ar ffordd Treflys sydd yn mynd fyny am Foel y Gest.

Adroddodd y Clerc ei bod wedi codi'r materion yma gyda'r Uned Hawliau Tramwy ar ôl y cyfarfodydd diwethaf ac nad oes ymateb wedi'i dderbyn hyd yma. Clerc i gysylltu â hwy unwaith yn rhagor.

Adroddwyd bod angen adleoli arwydd ger Hendre Gadredd ym Mhentrefelin. Clerc i gysylltu hefo'r Uned Hawliau Tramwy.

- 9 Adroddiad Pentrefi:**

Prenteg: Adroddwyd fod y cae chwarae yn wlyb ofnadwy a bod angen arwydd i atal loriau rhag mynd i fyny'r ffordd gul yng nghanol y pentref. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

Garndolbenmaen: Soniwyd eto am y loriau sydd yn mynd fyny a lawr Mynydd Glas a bod y safle tirlenwi wedi tyfu mewn maint. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gydag Adran Gynllunio, Parc Cenedlaethol Eryri ar ôl y cyfarfod diwethaf yn adrodd am y pryderon yma a'i bod heb dderbyn ymateb. Clerc i gysylltu hefo'r Parc unwaith yn rhagor.

Adroddodd y Cynghorydd Stephen Churchman y dylai'r broblem parcio gael ei ddatrys blwyddyn yma.

Parthed dŵr yn cronni ger Llys Eifion, soniwyd nad oes neb wedi bod allan i archwilio'r broblem. Adroddodd y clerc ei bod wedi adrodd am hyn i Briffyrdd Dwyfor ond heb dderbyn ymateb. Clerc i gysylltu â hwy eto.

Pentrefelin: Soniwyd fod Cyngor Gwynedd i fod wedi lleihau'r terfyn cyflymder o Plymouth Farm i Bentrefelin ym Mis Mawrth, adroddwyd nad yw hyn wedi digwydd. Clerc i gysylltu hefo'r Adran Draffig.

Golan: Dŵr yn cronni ar Bont Clena. Angen agor ffosydd ar hyd lôn Golan a Chwmystradllyn. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd Dwyfor.

Penmorfa: Llinell wen o flaen yr hen gapel wedi erydu. Clerc i adrodd i'r Adran Briffyrdd.

10 Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

- Rhaid i'r Cyngor Cymuned ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol). Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. **Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad.**
- Rhaid i bob Cyngor Cymuned a Thref sicrhau bod taliad o £156* y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau. **Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad.** Gall unigolion wrthod derbyn y taliadau, neu ran o'r taliadau os yw'n dymuno hynny. Mae'n rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig ac mae'n fater i'r unigolyn. Rhaid i bob Cyngor Cymuned sicrhau nad yw'n creu hinsawdd sy'n atal pobl rhag cael mynediad at unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo i'w cefnogi i gymryd rhan mewn democratiaeth leol.
- Ad-daliad am nwyddau traul - Rhaid i Gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa. Mae'n fater i bob Cyngor wneud a chofnodi penderfyniad polisi mewn perthynas â phryd a sut gwneir y taliadau. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dderbyn y penderfyniad. Taliadau i'w gwneud yn dilyn derbyn derbynneb.

- Mae'r taliad ar gyfer aelodau sy'n ymgymryd ag uwch swyddogaeth yn swm blynyddol o £500. Mae hwn yn ddewisol hyd at 3 aelod. **Penderfynwyd peidio mabwysiadu'r penderfyniad.**
- Gall Cyngorau Tref a Chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. Mae hwn yn ddewisol. **Penderfynwyd mabwysiadu'r penderfyniad yma.**
- Os yw'r Cyngor Tref neu Gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau. **Penderfynwyd mabwysiadu'r penderfyniad.**
- Gall Cyngorau Tref a Chymuned dalu iawndal am gollod ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni'r dyletswyddau. Mae hwn yn ddewisol. **Penderfynwyd mabwysiadu'r penderfyniad.**
- Gall pob Cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30. Mae hwn yn ddewisol. **Penderfynwyd peidio mabwysiadu'r penderfyniad yma.**
- Gall Cyngorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Faer neu Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hwn yn ddewisol. **Penderfynwyd peidio mabwysiadu'r penderfyniad.**
- Gall Cyngorau Tref a Chymuned ddarparu taliad i Ddirprwy Faer neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hwn yn ddewisol. **Penderfynwyd peidio mabwysiadu'r penderfyniad.**
- Manylion y Fframwaith Cydnabyddiaeth Tâl yn ôl Grŵp yn Nhabl 2 o'r adroddiad.
Grŵp 4
Costau Ychwanegol - Gorfodol ar gyfer pob aelod
Cyflog Uwch-rolau - Dewisol hyd at 3 aelod
Lwfans Presenoldeb - Dewisol
Colli Enillion - Dewisol
Teithio a Chynhaliaeth - Dewisol
Costau Gofal - Gorfodol
- Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned. **Ddim yn berthnasol.**

Bydd manylion unrhyw daliadau i'r Cyngorwyr yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

*Dylai'r £156 ddod o dan ddarpariaethau statudol Adran 316a ITEPA: Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a'r swm presennol y gellir ei dalu heb ddenu rhwymedigaeth treth yw £6 yr wythnos. Rhaid i'r unigolyn gymryd cyfrifoldeb am gysylltu gydag Adran Cyllid ei Fawrhydi i ofyn am gyngor.

11 Lleoliad y Cyfarfod Blynyddol: Penderfynwyd cynnal y cyfarfod blynyddol yng Nghanolfan Pentrefelin. R.W yn cynnig ac M.L.W yn eilio.

12 Gohebiaeth

- a. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd Dwyfor - Rhaglen Waith Mis Mawrth - Rhannwyd 5/3
- b. Cyngor Gwynedd - Hwb Tîm Tacluso Ardal Ni - Rhannwyd
- c. Cyngor Gwynedd - Pwyntiau Gwefru i Gerbydau Trydan - Rhannwyd

Gohebiaeth Ychwanegol

- a. Cyngor Cymuned Llanengan - Cyfieithu Cofnodion/Dogfennau - Trafodwyd
- b. Unllais Cymru - Bwletin Newyddion - Rhannwyd
- c. Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- ch. Cyngor Cymuned Clynnog Fawr - Ymholiad Archwiliad Allanol - Trafodwyd
- d. Cymru 1 Cyf - Adrodd Cynnydd mewn Pris o'r 1af Ebrill, 2023 - Trafodwyd
- dd. Heddlu Gogledd Cymru - Gwahoddiad i Gyfarfod 30ain o Fawrth, 2023 - Cafwyd adborth gan y Cadeirydd
- e. Cyngor Iechyd Cymuned - Ein Bywydau ar Stop 2023 - Gofyn am brofiadau - Rhannwyd
- f. Llywodraeth Cymru - Ymgynghoriad ar reolau cofrestru newydd am holl geidwad adar ym Mhrydain. - Rhannwyd
- ff. 20's Plenty for Us - Menter diolch am 20. - Rhannwyd
- g. Jina Gwyrfai - Cynghorydd Ward yr Eifl - Cyfyngiadau Adeiladu Lleol Tai Teg - Trafodwyd
- ng. Swyddfa Liz Saville - Gwahoddiad i Gyfarfod Cyhoeddus am Wasanaeth Iechyd Ardal Porthmadog - Cafwyd adborth gan yr Is-gadeirydd
- h. Llywodraeth Cymru - Datganiad Ysgrifenedig: Iechyd Digidol Cynghorau Cymuned a Thref - Rhannwyd
- i. Unllais Cymru - Hyfforddiant Mawrth ac Ebrill, 2023 - Rhannwyd
- j. Unllais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor 5ed Ebrill - Mynychodd y Clerc a'r Is-gadeirydd.

Cynllunio

Rhestrau - 6/3, 13/3, 20/3, 27/3

Ceisiadau Cynllunio - Dim Ceisiadau

13 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Cais hwyr gan Neuadd Garndolbenmaen oherwydd newid yn Aelodau'r Pwyllgor. Penderfynwyd rhoi rhodd o £300.00 fel y rhoddwyd i'r holl neuaddau/canolfannau eraill o fewn y Ward.

Monitro'r Gyllideb: Dim Gorwariant

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc:	£282.20
Ffôn:	£15.00
Cyfrifiadur:	£20.00
HMRC:	£70.40
HSBC:	£10.50
Trydanwr (Deffib Prenteg):	£204.23
Angraffwr (Baner)	£44.40
Veolia	£23.39

Derbyniadau

HSBC - Llog:	£39.36
Cyngor Gwynedd: (Llwybrau Cyhoeddus)	£886.00
Pritchard & Griffiths:	£550.00 (B.W, D.G a W.J)

Balansau Cyfrifon Banc:

Cyfredol: £14,408.25
Cadw: £16,909.40

14 Dewis gohebiaeth i'r wasg/wefan

- Croesawu Cyngorwyr Newydd
- Cydymdeimlo hefo R.P a'i deulu
- Diffib Prenteg
- Cyngorwyr wedi mynychu cyfarfodydd Iechyd a'r Heddlu
- Llwybrau Cyhoeddus
- Cyfarfod Blynyddol

